

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanfachreth  
Nos Fawrth, Gorffennaf 18, 2017 am 7:30 o'r gloch.**

**Preseanol** Cynghorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Gerallt Griffith, Meurig Ashton. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Rhun Prys Jones.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 20, 2017**

Wedi cywiro 'Neuadd Bentref Llanfachreth' i 'Neuadd Bentref Brithdir', lleoliad y cyfarfod, cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 20, 2017**

Eitem 1. Derbyniwyd llythyr (21/6/2017) oddi wrth Ms Iona Thomas yn rhoi gwybodaeth ychwanegol bydd o ddiddordeb i ni. Amgáu mae copi o benderfyniad gwnaethpwyd i lety gwyliau yn Coed Brithgwm. Anfonwyd copi o'r wybodaeth i'r aelodau (30/6/2017).

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (19/6/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn ateb Eitem 11 o Gofnodion Mai 16, 2017.

i. Mae ein cais i gywiro y drych sydd ar ochr ffordd A494 wrth Goeden Fawr, Dolserau wedi ei gyfeirio i Asiantaeth Cefnffyrdd ym Mangor.

Llythyr ateb (4/7/2017) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod mai'r drych wedi cael ei archwilio ac o'r farn bod y drych wedi cael ei gywiro gan rywun annibynol ac ei fod yn gywir.

ii. Mae ein cais am angen drych ar gyffordd Ffrwd / Ffordd Lefel, Llanfachreth oherwydd peryglon i drafnidiaeth wedi ei gyfeirio at Uned Traffic yng Nghaernarfon..

iii. Mae cyflwr coed sydd islaw'r lle parcio ceir Saith Croesffordd, Llanfachreth wedi cael eu harchwilio ac mae trefniadau wedi cael eu gwneud i dorri coeden sydd wedi

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION GORFFENNAF 18, 2017

marw.

b. Llythyr (26/6/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar ddydd Sadwrn, Medi 30, 2017 ym Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwydd.

c. Llythyr (28/6/2017) oddi wrth Tim Teithio Llesol Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ymgynghoriad cyhoeddus bydd yn cychwyn ar 28/6/2017 hyd at 20/9/2017 i gael barn ar ddarpariaeth mapiau ar gyfer cerddwyr a beiewyr. Bydd sesiwn ymgynghoriaeth yn Ystafell 2, Swyddfeydd y Cyngor, Penarlag ar 19/07/2017 am 9.30yb – 4.00yp.

e. Llythyr (29/6/2017) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd ynglŷn â dyfodol safle Ysgolion Brithdir a Llanfachreth. Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau (30/6/2017).

Ynglŷn ag Ysgol Llanfachreth penderfynwyd rhoi gwybod i'r Adran:

Nid yw'r Maes Parcio nesaf at safle'r ysgol yn perthyn i'r Ysgol. Lle cyhoeddus i'r gymuned yw'r Maes Parcio.

Mae y Cyngor Cymuned gyda diddordeb o gael y Cae Chwarae gyferbyn a'r ysgol.

f. Llythyr (5/7/2017), trwy law Un Llais Cymru, oddi wrth Arfon Hughes, Cyngor Cymuned Dinas Mawddwy, yn rhoi gwybod mae cwmni Tindle yn darfod cyhoeddi papur newydd Y Dydd. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar Orffennaf 12 am 7.30 yh i weld os oes diddordeb i'w barhau.

ff. Llythyr (6/7/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda chopi Rhybudd Argyfwng ar gyfer Cau Ffordd ger Pont yr Ewig, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod cyfnod tanategu a chlymu'n ôl malurion anniogel o'r goedwig (bonion coed). Bydd y ffordd ar gau o Gorffennaf 6 a disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn 9 diwrnod ond nid yn hwy na 21 diwrnod.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (4/7/2017) gyda dogfennau ymwneud ag adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri, gwaith sy'n cael ei wneud pob pedair blynedd. Mae'r Awdurdod yn gwahodd ni i roi barn ar y diwygiadau arfaethedig yn unig cyn 30/8/2017 a hefyd ar Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol. Mae dogfennau i'w gweld yn y Llyfrgell Gyhoeddus.

b. Cais NP5/54/E552. Ymgynghoriad o dan Adran 37 o'r Ddeddf Trydan 1989 i gadw gwifren trydan uwchben sydd wedi ei osod. Tir ger Station House, Bontnewydd.

Maent angen gwybod os oes sylwadau i roi iddynt.

Penderfynwyd rhoi gwybod nid oes gwrthwynebiad i'r cais.

## **8. Materion Ariannol**

- a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mehefin 2017: £1,136.43.
- b. Balans yn y banc ar 29 Mehefin 2017: £5,907.10.
- c. Llythyr (10/7/2017) oddi wrth Welsh Council Audit / BDO. Mae'n rhestru pwyntiau sydd eu hangen i gwblhau archwiliad blynyddol.

i. Maent eisiau eglurhad ar asedau sefydlog. Rhoddwyd gwybod iddynt flwyddyn diweddfaf nid yw'r ysiwriant yn glir ar asedau sefydlog.

Rhoddwyd gwybod iddynt mae'n anodd penderfynu costau ein hasedau oherwydd y wybodaeth sy'n cael ei roi gan ein cwmni ysiwriant.

ii. Mae angen cyfrifon y cyngor ar wefan y cyngor. Os nid ydynt ar y wefan bydd mater amodi'n cael ei gyhoeddi.

Mae'r wybodaeth am 2015/2016 a 2016/2017 wedi cael ei roi ar ein gwefan.

iii. Mae angen i ni ddarparu copi o'r P32 a chopi o'r derbyniadau cyflwyno Amser Real ar gyfer Chwefror neu Fawrth.

Cafwyd copi o'r wybodaeth gan E.W,Owen a'i Chwmni.

iiii. Mae angen cymeradwyo Cod Ymddygiad.

Gwnaethpwyd hyn yn ei ein cyfarfod Mehefin 20, 2017.

Roedd BDO angen y wybodaeth 17 Gorffennaf. Rhoddwyd y wybodaeth 14/7/2017.

Mae'r Clerc yn ddiolchgar i'r Cadeirydd am fynd allan o'i ffordd i arwyddo y papurau uchod.

## **9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

Nid oedd adroddiad.

## **10. Unrhyw fater arall**

- a. Mae angen rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen torri gordyfiant ar ochr ffyrdd y gymuned.

-----